COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

# Manyleb Arbenigwyr Pwnc

# Adeiladwaith

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dymuno penodi arbenigwyr pwnc Addysg Bellach a/neu Ddysgu Seiliedig ar Waith i gynorthwyo gyda'r gwaith o adnabod anghenion adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr yn y sectorau adeiladwaith.

## 1 Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai cylch gorchwyl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn cael ei ymestyn i'r sectorau Addysg Bellach (AB) a Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW).

Un agwedd ar y gwaith hwn yw sicrhau bod adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg addas ar gael i ddysgwyr yn y sectorau hyn. Mae'r Coleg yn mynd ati i weithredu cynllun adnoddau blynyddol i gomisiynu a diweddaru adnoddau. Mae angen arbenigwyr pwnc ar y Coleg mewn meysydd penodol er mwyn ymgynghori â nhw pan fydd angen. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn canolbwyntio ar 8 maes blaenoriaeth gan gynnwys adeiladwaith.

Bwriedir penodi arbenigwyr pwnc o fewn y meysydd canlynol o fewn y maes sector adeiladwaith:

- Gwaith coed a saernïaeth
- Plymio a gwresogi
- Trydanwr
- Plastro, teilio, paentio ac addurno
- Gosod brics a gwaith toi

CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Prif waith yr arbenigwyr pwnc fydd gwneud argymhellion ynglŷn â'r adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd eu hangen yn eu meysydd arbenigol.

## 2 Dyletswyddau arbenigwr pwnc

Bydd disgwyl i'r arbenigwyr pwnc gyflawni'r canlynol (gan gydweithio â'r arbenigwyr arall, lle bo angen):

i. Cwblhau gwaith mapio cychwynnol er mwyn adnabod yr adnoddau sydd ar gael yn barod. Bydd angen cysylltu gydag adrannau ac unigolion perthnasol yn y colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i'w hannog i gyfrannu i'r gwaith.
ii. Gwerthuso'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli o ran addasrwydd i bwrpas ac i'r cymwysterau presennol, safon, sefyllfa hawlfraint ayyb, gan sicrhau bod yr adnoddau'n cyfateb â'r sector, cymhwyster a'r safon briodol.
iii. Rhoi Swyddog y Coleg mewn cyswllt gyda chysylltiadau perthnasol yn ôl yr angen.
iv. Llunio rhestr, ar y cyd gydag ymarferwyr, o adnoddau newydd y gellid eu comisiynu, gan amlygu'r rhesymeg dros eu cynnwys. Gellir cynnwys cyfuniad o adnoddau gwreiddiol ac addasiadau, ac adnoddau print neu ddigidol.
v. Cylchredeg y rhestr gyfansawdd i'r colegau/darparwyr er mwyn sicrhau nad oes adnoddau cyffelyb eisoes mewn bodolaeth a sicrhau bod yr ymarferwyr yn gytûn.
vi. Paratoi disgrifiad manwl o'r gofynion ar gyfer pob un o'r adnoddau ar y rhestr.

## 3 Nodweddion person

Bydd arbenigwr pwnc yn meddu ar y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth ganlynol:

- Profiad diweddar o ddysgu a/neu ddatblygu'r pwnc ar lefel 2 neu 3, yn Gymraeg a/neu'n Saesneg. (Byddai'r Coleg yn ystyried ceisiadau gan

unigolion sydd â dealltwriaeth gadarn o addysgu ar lefelau 2 a 3, o bosib fel arholwyr/aseswyr, ond sydd ar hyn o bryd yn addysgu ar lefel 4 neu'n uwch.)

- Gwybodaeth am fanylebau cymwysterau perthnasol i'w pwnc.
- Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl.

## 4 Amserlen

Cytunir ar y nifer o oriau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynorthwyo'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda thasgau neu ymholiadau mwy cymhleth fesul tasg neu ymholiad.

Bydd y contract hwn yn para tan ddiwedd y flwyddyn ariannol sef 31/03/2025. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol efallai byddai'r Coleg yn fodlon ymestyn yr amserlen hon.

## 5 Gwerth am Arian

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn gwneud y defnydd llawnaf o'r tair elfen graidd: amser, arbenigedd ac ansawdd y gwaith; felly rhaid i gyflenwyr wneud yn siŵr bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau am y gwasanaethau a roddir.

## 6 Iaith

Dylid cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg.

## 7 Cyfathrebu

Dylai unigolion gadarnhau y byddant yn medru glynu wrth egwyddorion cyfathrebu effeithiol:

- Hysbysu'r cleient am ddatblygiadau sydd yn benodol i gyfarwyddiadau'r cleient.
- Sefydlu dull o adrodd sydd yn addas i anghenion y cleient wrth ymwneud â thasgau neu ymholiadau mwy cymhleth. Gall hyn fod yn wythnosol neu'n fisol yn ystod cyfnod y gwaith.
- Defnyddio cyswllt e-bost gan wybod bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd yn erbyn firysau neu ymyrraeth niweidiol arall.
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y gwasanaeth i gynnwys, ond heb gael ei gyfyngu i:

- gydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data
  - hawlfraint wedi ei gadw.
- Storio gwybodaeth ac archifo dogfennau megis ffeiliau a dogfennau cefnogi yn ddiogel. Bydd ffeiliau yn cael eu cadw am gyfnod wedi ei bennu gan y gyfraith. Yn dilyn hyn, dylid ymgynghori gyda'r cleient er mwyn canfod pa un a gellir dinistrio'r ffeiliau, neu i dderbyn cyfarwyddiadau pellach parthed storio.
- Gwneud pob ymdrech i gynnal cyfrinachedd y cleient ar bob gohebiaeth a anfonir, naill ai trwy e-bost, llythyr ac ati.

# 8 Meini Prawf

Wrth benderfynu ar restr fer, bydd y panel yn asesu:

i. Profiad ac arbenigedd yr unigolion
ii. Gwerth am arian
iii. Y gallu i gyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg

Os cynhelir cyfweliadau, byddant yn adeiladu ar yr asesiad o'r meini prawf yma, ac yn ystyried pob un o elfennau'r cynnig.

# 9 Gwneud cais

Dylai'r sawl sy'n dymuno gwneud cais wneud hynny trwy lythyr a CV a'u dychwelyd at Lisa O'Connor, Rheolwr Academaidd Addysg Bellach a Phrentisiaethau post16@colegcymraeg.ac.uk erbyn 12.00 ar ddydd Llun 1 Gorffennaf 2024.

Yn ogystal â'r manylion arferol dylai'r cais gynnwys y canlynol:

- Y profiad a'r arbenigedd perthnasol sydd gan yr unigolyn yn erbyn y gofynion uchod
- Cadarnhad o allu'r unigolyn i gynnig gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg, yn llafar ac ysgrifenedig
- Amlinelliad byr o brofiad yr unigolyn yn y maes

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Y ffioedd a godir fesul awr (mi fyddwn ni'n ystyried talu adran i ryddhau staff i gwblhau tasgau fel rhan o ddyletswyddau ei swydd yn dilyn trafodaethau gyda'r adran berthnasol)
- Cadarnhad o allu'r unigolyn i gyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen a nodir uchod.

Am sgwrs anffurfiol, dylid cysylltu gyda Lisa O'Connor l.oconnor@colegcymraeg.ac.uk neu Alaw Dafydd a.dafydd@colegcymraeg.ac.uk .

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government